**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1447
Ein cyf/Our ref HIDCC/05514/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@gov.wales

21 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

**Deiseb P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas**

Diolch am eich llythyr ar 24 Mai yn gofyn am fy marn ar faterion a godwyd yn Neiseb P-06-1447, yn gofyn am "Atal CNC rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas".

Fel y gŵyr Pwyllgor Deisebau'r Senedd, mae'r pwysau cyllidebol ar gyfer 2024-25 wedi cael llawer o sylw ac nid oes unrhyw sefydliadau wedi'u heithrio o'r sgyrsiau cyllidebol a'r penderfyniadau anodd iawn y bydd yn rhaid eu gwneud. Yn unol â hynny, mae CNC yn ystyried ei gylch gwaith ac yn adolygu'r holl weithgareddau mewn modd beirniadol, gan gydnabod bod cyflawni ei swyddogaethau craidd a'i ddyletswyddau statudol yn cael blaenoriaeth.

Gan roi sylw penodol i ddyfodol ei chanolfannau ymwelwyr, mae CNC yn ystyried llu o opsiynau posibl, gan gynnwys darparu cyfleoedd i fusnesau lleol, gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymdeithasol a chymunedol i ymchwilio i ymarferoldeb rheoli'r canolfannau hyn ac ati yn y dyfodol.

Yn y pen draw, Bwrdd CNC sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ar ddyfodol ei ganolfannau ymwelwyr. Deallaf fod CNC wedi cychwyn sgyrsiau gyda chymunedau perthnasol ynghylch opsiynau ar gyfer y canolfannau hyn yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf am hyn. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Yr eiddoch yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs